

JONES, MORDECAI (1813 - 1880), hyrwyddwr Ysgolion Brutanaidd, perchennog gweithydd glo, etc.

**Enw:** Mordecai Jones  
**Dyddiad geni:** 1813  
**Dyddiad marw:** 1880  
**Rhiant:** Richard Jones  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** hyrwyddwr Ysgolion Brutanaidd, perchennog gweithydd glo, etc.  
**Maes gweithgaredd:** Diwydiant a Busnes; Addysg  
**Awdur:** Watkin William Price

Ganwyd 2 Mai 1813 yn Aberhonddu, mab Richard Jones, adeiladydd ar gamlas Aberhonddu, a oedd yn nai i [Robert Jones](#), Rhos-lan. Addysgwyd ef ar gost rhyw Lloyd, marsiandwr glo, Aberhonddu. Yn ddiweddarach dilynodd Jones ei noddwr fel perchennog y busnes; yr oedd hefyd yn cludo glo a chalch o Lanelli, sir Frycheiniog, i Aberhonddu mewn badau ar y gamlas. Yr oedd ganddo fragdy yn Aberhonddu (1841), prynodd yr Abergavenny Gas Works, ac efe oedd cadeirydd cwmni gwaith nwy Aberhonddu o'r cychwyn. Llwyddodd hefyd yn ei anturiaethau ym myd glo. Efe a agorodd bwll Nantmelyn yng nghwm Dâr, 1866, a phwll y Mardy, yn Rhondda Fach, 1876. Anfonodd y llwyth cyntaf o lo o bwll Mardy i Aberhonddu y dydd y dechreuodd yn y swydd o siryf Brycheiniog (1876). Bu'n faer Aberhonddu yn 1854, yr oedd yn ddirprwy-raglaw yn sir Frycheiniog, ac yn gadeirydd Bwrdd Ysgol Aberhonddu o'r cychwyn hyd 1879. Methodist Calфинаidd ydoedd o ran ei grefydd, a bu'n barod iawn i roddi tir, rhydd-ddaliadol, i adeiladu capeli arno ar ei stad yn Mardy.

Efallai mai ei waith dros addysg sydd yn haeddu mwyaf o glod. Efe oedd un o brif hyrwyddwyr ymdrechion Cymdeithas yr Ysgolion Brutanaidd ('British and Foreign Schools Society') yn Ne Cymru, a bu'n cynorthwyo i gael y Normal School, Aberhonddu, 1846. Ffromodd golygydd *The Principality* wrtho yn aruthr am ei fod yn cefnogi ymdrechion [David Charles III](#), Trefeca, i gael gan rai hyrwyddwyr addysg (yn wyneb gwrthwynebiad gan Annibynwyr a Bedyddwyr) i fod yn barod i dderbyn y cymorth ariannol a gynigid gan y Llywodraeth er codi ysgolion, etc., ac ar yr un pryd barhau'r mudiad gwirfoddol. Yr oedd yn cefnogi ymdrechion sasiwn y Methodistiaid Calфинаidd yn y Gogledd i gynorthwyo'r ' Cambrian Education Society ' a oedd am sefydlu ysgolion a derbyn grantiau gan y Llywodraeth. Efe hefyd oedd ysgrifennydd pwyllgor (yn cynnwys gweinidogion a blaenoriaid ymhlith y Methodistiaid Calфинаidd) a anfonodd femorandwm at J. P. Kay Shuttleworth ('Committee of Council on Education') yn galw sylw at y pwysigrwydd o gael arolygyddion ysgolion yn medru Cymraeg (Mehefin 1848). Pan gyfarfu llawer o weinidogion Ymneilltuol siroedd Mynwy, Morgannwg, a Brycheiniog mewn cynhadledd ym Merthyr Tydfil, a phenderfynu derbyn grantiau'r Llywodraeth a ffurfio'r ' South Wales British Schools Association, ' dewiswyd Mordecai Jones yn drysorydd y gymdeithas a [Syr Benjamin Hall](#) yn llywydd (*Y Diwygiwr*, Ionawr 1855, 36). Bu farw 30 Awst 1880.

## Awdur

Watkin William Price, (1873 - 1967)

## Ffynonellau

Theophilus Jones, Edwin Davies, Joseph Russell Bailey, *History of the County of Brecknock*, iv, 257, 297, 309

*The Principality*, 30 Mehefin a 8 Medi 1848

*Y Diwygiwr*, Mai 1846, Ionawr 1855

llythyr yn Amgueddfa Aberhonddu 12 Mawrth 1841

*The Weekly Mail*, 4 Medi 1880

Elizabeth Phillips, *A history of the pioneers of the Welsh coalfield* (1925), 205-7, 249

gwybodaeth bersonol

## Darllen Pellach

J. E. Caerwyn Williams, *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Gaernarfon*, 1964

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q6909612](#)

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

